**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Y Cabinet

**Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Iau, 21 Mawrth 2019 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| M C Child | W Evans | R Francis-Davies |
| D H Hopkins | A S Lewis | C E Lloyd |
| J A Raynor | M Sherwood | M Thomas |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr):

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorwyr J E Burtonshaw, P K Jones, E J King a B J Rowlands,

---

## 166. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y cysylltiadau canlynol:

1) Mynegodd y Cynghorydd J A Raynor gysylltiad personol â chofnod 177 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol" a dywedodd ei bod wedi cael goddefeb gan y Pwyllgor Safonau i aros, siarad, ond i beidio â phleidleisio ar faterion yn ymwneud â phenodi llywodraethwyr awdurdod lleol;

2) Mynegodd y Cynghorydd C E Lloyd gysylltiad personol â chofnod 178 "Adeiladu Rhaglen Cynnal a Chadw Cyfalaf 2019-2020".

## 167. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod a restrir isod fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2019.

## 168. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

### 1) Gweddarlledu Cyfarfod

Dywedodd yr Aelod Llywyddol, fel rhan o'r gwaith cyfredol i fynd ati i weddarlledu cyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet, y Pwyllgor Cynllunio a Phwyllgor y Rhaglen Graffu, fod y cyfarfod  yn cael ei recordio at ddibenion gweddarlledu. Ni fydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw am ein bod yn dal yn y

cyfnod profi; fodd bynnag, caiff ei recordio. Os bydd y prawf yn llwyddiannus, caiff y cyfarfod ei gyhoeddi ar-lein.

**2) Diwygiadau/Cywiriadau i Agenda'r Cabinet**

Eitem 12 "Dyfarnu'r Contract (Adeiladu) Cam Cyntaf ac Awdurdodi'r Rhaglen Gyfalaf perthnasol ar gyfer y Prosiect Ailfodelu ac Ailwampio yn Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt.".

Dywedodd Arweinydd y Cyngor y dylid newid Argymhelliad 1 i ddarllen fel a ganlyn:

"Penodi contractwr 4 i gynnal y gwasanaeth cyn adeiladu hyd at £392,000 yn amodol ar gwblhau diwydrwydd dyladwy ariannol priodol. Ystyrir mai contractwr 4 yw'r tendr mwyaf manteisiol yn economaidd a'r un sy'n rhoi gwerth gorau i'r awdurdod".

## 169. Cwestiynau gan y cyhoedd.

Gofynnwyd nifer o gwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd a oedd yn gysylltiedig â chofnod rhif 174 "Trefniadaeth Ysgolion sy'n gysylltiedig â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg - Gan gynnwys y bwriad i gau YGG Felindre a Chynyddu Maint ac Ail-leoli YGG Tan-y-Lan ac YGG Tirdeunaw" a 175 "Adolygiad ysgol bach - Cynnig i gau Ysgol Gynradd Craig-cefn-parc".

Ymatebodd Aelod perthnasol y Cabinet yn briodol.

Nid oedd angen ymateb ysgrifenedig ar unrhyw gwestiynau.

## 170. Hawl i holi cynghorwyr.

Gofynnodd y Cynghorydd BJ Rowlands y cwestiwn canlynol yn ymwneud â chofnodion174 "Trefniadaeth Ysgolion sy'n gysylltiedig â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg - Gan gynnwys y bwriad i gau YGG Felindre a Chynyddu Maint ac Ail-leoli YGG Tan-y-Lan ac YGG Tirdeunaw" a 175 "Adolygiad ysgol bach - Cynnig i gau Ysgol Gynradd Craig-cefn-parc"

"Pa gymorth a chefnogaeth a roddwyd i blant yr ysgolion hyn i gynorthwyo eu lles meddyliol yn ystod y broses hon?"

Nododd Aelod perthnasol y Cabinet y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.

## 171. Ymchwiliad Craffu i'r Amgylchedd Naturiol.

Cyflwynodd y Cynghorydd P Jones, Cynullydd Panel Ymchwiliad Craffu - Yr Amgylchedd Naturiol, y canfyddiadau, y casgliadau a'r argymhellion yn deillio o Ymchwiliad y Panel i'r Amgylchedd Naturiol.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi'r adroddiad, a chafodd aelod perthnasol y Cabinet y dasg o gyflwyno ymateb ysgrifenedig i'r Cabinet.

**172. Adroddiad Monitro Perfformiad Chwarter 3 2018-19**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Busnes a Pherfformiad adroddiad a oedd yn amlinellu'r Perfformiad Corfforaethol ar gyfer Chwarter 3 2018/19 a oedd yn ceisio helpu i gyfeirio penderfyniadau gweithredol ynglŷn â dyrannu adnoddau a, lle bo'n berthnasol, gamau gweithredu cywiro i reoli a gwella perfformiad ac effeithlonrwydd wrth gyflawni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

**Penderfynwyd** nodi ac adolygu'r canlyniadau perfformiad i helpu i gyfeirio penderfyniadau gweithredol ynglŷn â dyrannu adnoddau a, lle bo'n berthnasol, gamau gweithredu cywiro i reoli a gwella perfformiad ac effeithlonrwydd wrth gyflawni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

**173. Ardrethi Busnes - Cynllun Cymorth Ardrethi Dros Dro (Cymru) 2019/20.**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid (Swyddog Adran 151) adroddiad a oedd yn darparu gwybodaeth er mwyn ystyried mabwysiadu Cynllun Cymorth Ardrethi dros dro newydd ar gyfer y Stryd Fawr, yn ymwneud ag Ardrethi Busnes, a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi manylion y cynllun a'r cais;

2) Mabwysiadu'r Cynllun Cymorth Ardrethi a'r broses ymgeisio fel y'u nodir yn yr adroddiad hwn, ar gyfer 2019/20.

**174. Trefniadaeth Ysgolion sy'n gysylltiedig â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg - Gan gynnwys y bwriad i gau YGG Felindre a Chynyddu Maint ac Ail-leoli YGG Tan-y-Lan ac YGG Tirdeunaw.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau adroddiad a oedd yn ceisio rhoi ystyriaeth i wrthwynebiadau a dderbyniwyd yn ystod cyfnod yr Hysbysiad Statudol a gofynnodd am benderfyniad ar y cynigion yn yr adroddiad:

i) Cau Ysgol Gynradd Gymraeg Felindre'n weithredol o 31 Awst 2019;
ii) Cynyddu maint Ysgol Gynradd Gymraeg Tan-y-lan ar safle newydd o fis Ionawr 2021;
iii) Cynyddu maint Ysgol Gynradd Gymraeg Tirdeunaw ar safle newydd o fis Ionawr 2021;
iv) Rhoi newidiadau dalgylch sy’n gysylltiedig â 2) a 3) uchod ar waith o fis Medi 2021.

**Penderfynwyd:**

1) Cau Ysgol Gynradd Gymraeg Felindre'n weithredol o 31 Awst 2019;

2) Cymeradwyo cyhoeddiad yr Adroddiad Gwrthwynebu ar gyfer Ysgol Gynradd Gymraeg Felindre (fersiwn ddrafft yn Atodiad A yr adroddiad);

3) Cynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Gynradd Gymraeg Tan-y-lan i 420 ynghyd â meithrinfa mewn ysgol newydd ei hadeiladu yn Heol Beacons View yn y Clâs o fis Ionawr 2021, gyda newidiadau dalgylch cysylltiedig yn cael eu rhoi ar waith o fis Medi 2021;

4) Cynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Gynradd Gymraeg Tirdeunaw i 545 ynghyd â meithrinfa mewn ysgol newydd ei hadeiladu ar safle Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe oddi ar Heol Gwyrosydd o fis Ionawr 2021, gyda newidiadau dalgylch cysylltiedig yn cael eu rhoi ar waith o fis Medi 2021.

## 175. Adolygiad ysgol bach - Cynnig i gau Ysgol Gynradd Craig-cefn-parc.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau adroddiad a oedd yn ceisio rhoi ystyriaeth i wrthwynebiadau a dderbyniwyd yn ystod cyfnod yr Hysbysiad Statudol a gofynnodd am benderfyniad ar y cynnig i gau Ysgol Gynradd Craig-cefn-parc yn weithredol o 31 Awst 2019.

**Penderfynwyd:**

1) Rhoi ystyriaeth i a nodi’r adroddiad gwrthwynebu (Atodiad A yr adroddiad);

2) Cymeradwyo'r cynnig i gau Ysgol Gynradd Craig-cefn-parc yn weithredol o 31 Awst 2019;

3) Cymeradwyo cyhoeddiad yr Adroddiad Gwrthwynebu.

## 176. Dyfarnu'r Contract (Adeiladu) Cam Cyntaf ac Awdurdodi'r Rhaglen Gyfalaf perthnasol ar gyfer y Prosiect Ailfodelu ac Ailwampio yn Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt.

Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau, a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i:

i) Ddyfarnu contract Cam Un ar gyfer y gwaith i Dendr Rhif 4;
ii) Ceisio caniatâd i ymrwymo cyfanswm o £551,469 i'r rhaglen gyfalaf i ariannu costau'r cyfnod cyn adeiladu. Cydymffurfio â Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol ac awdurdodi cynllun newydd i'r Rhaglen Gyfalaf.

**Penderfynwyd:**

1) Penodi contractwr 4 i gynnal y gwasanaeth cyn adeiladu hyd at £392,000 yn amodol ar gwblhau diwydrwydd dyladwy ariannol priodol. Ystyrir mai contractwr 4 yw'r tendr mwyaf manteisiol yn economaidd a'r un sy'n rhoi gwerth gorau i'r awdurdod”.

2) Ymrwymo £554,469 i'r Rhaglen Gyfalaf i ariannu costau'r cyfnod cyn adeiladu, gan gynnwys gwasanaeth cyn adeiladu contractwyr a ffïoedd mewnol;

3) Awdurdodi'r Prif Swyddog Cyfreithiol i lunio dogfennaeth angenrheidiol i gwblhau'r contract a chyflawni'r prosiect;

4) Dylid cyflwyno adroddiad pellach ar ddiwedd 2019 i ystyried cymeradwyo dyfarniad contract Cam Dau ac yn amodol ar gadarnhad a derbynioldeb costau adeiladu i ymrwymo cost y prosiect i'r Rhaglen Gyfalaf cyn i unrhyw waith ffisegol gael ei wneud.

**177. Penodiadau Llywodraethwyr Awdurdod Lleol.**

Cyflwynodd Grŵp Penodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer yr enwebiadau a gyflwynwyd i lenwi swyddi gwag Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol (ALl) ar gyrff llywodraethu ysgolion.

**Penderfynwyd:**

i) Cymeradwyo'r enwebiadau canlynol a argymhellwyd gan y Cyfarwyddwr Addysg ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau:

| | | |
|---|---|---|
| 1) | Ysgol Gynradd Llanrhidian | Mrs Felicity Parrott |
| 2) | Ysgol Gynradd Portmead | Ms Sharon Rees |
| ii) | YGG Lôn Las | Ms Lisa Lewis |
| iii) | YGG Pontybrenin | Mr Keith Collins |
| iv) | Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt | Mr Adrian Novis |

**178. Adeiladu Rhaglen Cynnal a Chadw Cyfalaf 2019/20.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Busnes a Pherfformiad adroddiad a oedd yn ceisio cytundeb ar y cynlluniau i'w hariannu drwy'r Rhaglen Cynnal a Chadw Cyfalaf.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo Cynlluniau Cynnal a Chadw Cyfalaf ar gyfer Gwasanaethau Adeiladu, fel y'u rhestrir yn Atodiad A;

2) Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr ac Aelod y Cabinet gymeradwyo cynlluniau Gwasanaethau Cymdeithasol unigol;

3) Cymeradwyo a chynnwys y goblygiadau ariannol a nodwyd yn Atodiad C a D yn y Rhaglen Gyfalaf.

**179. Dyraniad Cyfalaf i Asedau Isadeiledd Priffyrdd 2019-2020.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd adroddiad a oedd yn ceisio cadarnhad am y Rhaglen Gwaith Cyfalaf ar gyfer asedau'r isadeiledd priffyrdd.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r dyraniadau arfaethedig, ynghyd â'r Goblygiadau Ariannol a nodir yn Atodiad A, ac y dylid eu cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf;

2) Rhoi awdurdod dirprwyedig i Bennaeth Gwasanaeth Priffyrdd a Chludiant ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd i flaenoriaethu, cwblhau a dyrannu cyllid i'r cynlluniau hynny a gynhwysir o fewn cwmpas yr adroddiad hwn ond nad oes cyfeiriad penodol atynt.

**180. Rhaglen Grant Cyfleusterau I'r Anabl A Grant Gwella 2019/20**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gartrefi ac Ynni adroddiad a oedd yn darparu manylion y Rhaglen Grant Cyfleusterau i'r Anabl a'u Gwella ac yn ceisio cymeradwyaeth i gynnwys cynlluniau yn Rhaglen Gyfalaf 2019/20, er mwyn cydymffurfio â Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol (Rhaglennu ac Arfarniadau Cyfalaf) ac i ymrwymo i'r cynlluniau a'u cymeradwyo yn unol â'r Rhaglen Gyfalaf.

**Penderfynwyd:**

1) Y dylid cymeradwyo'r Rhaglen Grant Cyfleusterau i'r Anabl a'u Gwella, fel y'i nodwyd, gan gynnwys ei goblygiadau ariannol, ac y dylid ei chynnwys yng Nghyllideb Gyfalaf 2019/20.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.37 am

**Cadeirydd**

| **Gweithdrefn Galw i Mewn – Dyddiadau Perthnasol** | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi: | 22 March 2019 |
| Cyfnod Galw i Mewn yn dod i ben<br>(3 diwrnod gwaith clir ar ôl cyhoeddi): | 23.59, 27 Mawrth 2019 |
| Penderfyniad yn dod i rym: | 28 Mawrth 2019 |